**LC667**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003**

Mae Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas ag asesu gallu person i dalu am lety wedi'i drefnu gan awdurdodau lleol o dan Ran III o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948. Mae'r rheoliadau presennol yn diwygio y Rheoliadau 1992 fel y mae'r nodyn esboniadol yn egluro.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gwallau drafftio sydd wedi cael eu cydnabod ar ran y Gweinidog ac y byddai'n briodol eu cywiro drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

**Rheoliad 2(3)**

Ymddengys mai'r bwriad oedd cynnwys ymadroddion fel "ym mhob achos" yn union o flaen "lle".

**Rheoliad 3**

Yn y diffiniad o "carer's allowance" a “guardian’s allowance”, dylid bod wedi hepgor y geiriau “Social Security” yn unol â’r diffiniad sydd eisoes yn Rheoliadau 1992.

Yn y diffiniad o "lone parent", dylid bod wedi hepgor y gair "(General)" yn unol â'r diffiniad sydd eisoes yn Rheoliadau 1992.

Ym mhob un o'r diffiniadau, mae blwyddyn y Ddeddf wedi'i hepgor.

**Rheoliad 4**

Dylid bod wedi cynnwys y geiriau "rheoliad 16 o" yn union cyn "'r prif Reoliadau".

**Rheoliad 7(1)**

Ym mharagraff 28D a ychwanegwyd, dylid cyfeirio at enw llawn y Cynulliad. Hefyd dylid rhoi'r flwyddyn ar gyfer y Ddeddf Llywodraeth Leol.

**Rheoliad 8**

Ym mharagraff 6A a ychwanegwyd, dylid hepgor “Social Security” o baragraffau (a) a (b) yn unol â’r diffiniad sydd yn Rheoliadau 1992, ac ym mharagraff 22 a ychwanegwyd, dylid rhoi'r flwyddyn ar gyfer y Ddeddf Llywodraeth Leol.

**Sylwadau**

**Rheoliad 4**

Mae geiriad (ond nid ystyr) paragraff (5) a ychwanegwyd ychydig yn wahanol i'r paragraff (5) a ychwanegwyd ar gyfer Lloegr. O gofio ei bod yn well osgoi testun gwahanol i'r un paragraff ar gyfer Cymru a Lloegr, efallai y byddai wedi bod yn well, yn yr achos hwn, pe bai'r fformat presennol sydd wedi'i ddefnyddio yn Lloegr wedi'i ddefnyddio yng Nghymru hefyd.

Dylid nodi hefyd ei bod yn bosibl bod fersiwn diwygiedig a osodwyd o’r rheoliadau hyn lle mae’r pennawd yn cyfeirio’n anghywir at y dyddiad dod i rym, sef 7 Ebrill. Y ffurf gywir yw’r fersiwn gwreiddiol – “yn unol ag erthygl 1(1)”.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

18 Mawrth 2003